YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. MEHEFIN, 1952 RHIF 6.

Nodiadau'r Golygydd

Y FFYNNON FAWR.

TREULIAIS brynhawn hyfryd yn Notais ger Porthcawl tua thair wythnos yn ôl. Yr achlysur oedd Cyfarfodydd Blynyddol Cymdeithas Undodaidd De-Ddwyrain Cymru. Saesneg yw iaith ein cyfarfodydd yma, gwaetha'r modd, ond eleni gwelsom unwaith eto Gymro glân yn esgyn i gadair y Llywydd. Gwrandawson ar Mr. M. R. Morgan yn traethu ei neges afaelgar a bonheddig ac yna rhwng dau gwrdd aeth tri ohonom am dro byr ar un o lonydd hyfryd Morgannwg ac i gyfeiriad y Drenewydd—*Newton* yw'r gair bellach. Yr oedd y sgwrs yn felys ond yn sydyn gwelsom 'ryfeddod prin' chwedl R. Williams Parry,—

"Ninnau heb ysgog ac heb ynom chwyth
Barlyswyd ennyd ; megis trindod faen
Y safem . . ."

Beth oedd yno ? Dim ond twmpath gwyrdd ar ochr y ffordd a charreg seml yn brigo i'r golwg rhwng y borfa las—carreg a dau bennill Cymraeg arni. Rhaid i mi gyfaddef fod gweld y geiriau Cymraeg yma mewn ardal sy'n gwbl Seisnig erbyn hyn wedi rhoi rhyw ysgytwad ryfedd i mi. Oedais ennyd i'w copïo a dyma nhw :

"Y FFYNNON FAWR.

Y mae dŵr yn fendith angenrheidiol
Roddes Duw i ni ar lawr ;
Cofiwn Awdwr pob daioni
Wrth yfed dŵr o'r Ffynnon Fawr.

Ond dŵr naturiol nid yw'r mwyaf
O'r bendithion sydd gerllaw,
Cais y Dŵr o'r Ffynnon Loyw
A dardd i fywyd 'r ochor draw".

Nid oedd llawer o farddoniaeth yn y geiriau ond yr oedd barddoniaeth fawr yn y sefyllfa. Rhedodd fy meddwl ar garlam a gwelais y Ffynnon Fawr yn ddarlun cyfan o lawer o bethau. Dychmygais ei gweld gan mlynedd a mwy yn ôl yn ganolfan i lawer cwmni difyr a'r rheiny wedi dod i gyrchu dŵr.

"Gwyn fyd na fai tafod gan bistyll y llan
I adrodd y chwedlau ga'i dweud gylch y fan :
Mae'n rhaid cael rhyw hanes, un newydd neu hen
I aros i'r pistyll i lenwi y stên".

Cawsech glywed Cymraeg hyfryd Morgannwg yn byrlymu fel llygad y ffynnon ar wefusau'r merched a oedd yn ' canu cân felys i foli y dŵr gloyw glân.' Aeth glaslanc neu ddau heibio i mi pan oeddwn yn copïo ac ar eu gwefusau clywais barablu rhyw fratiaith o Saesneg. Dŵr trwbl, lleidiog, llwyd, llaca ydoedd a'r Ffynnon Fawr wrth ymyl—*wedi cau.* Oes y dŵr tap ydyw bellach, ac y mae'r ffynhonau yn prysur gau hyd yn oed mewn trefi bychain, gwledig fel Llandysul a Llanbedr. Os yw eich plant yn anghofio iaith ein tadau a'r diwylliant sydd ynghlwm wrthi, cofiwch eich bod yn rhoi clotas werdd a phorfa las ar ddrws y *Ffynnon Fawr.*

Synnwn i ddim na fu Iolo Morganwg ar un o'i amryw deithiau yn yfed dŵr o'r Ffynnon Fawr yn y Drenewydd. Efallai mai yma y cyfansoddodd ei emyn annwyl,—

"Dŵr y bywyd sy'n ffynhonni
Dan d'orseddfainc di, fy Nuw !
Trwy'r holl fydoedd mae'n afoni,
Ffrwd ein iechydwriaeth yw".

Gwn beth bynnag, iddo yfed yn helaeth o Ffynnon Fawr hanes a thraddodiad ein cenedl a bu'n gyfoethocach o'r herwydd. Yn ei amser ef yr oedd Morgannwg yn frith gan feirdd a llenorion, heddiw gallwch eu cyfrif ar fysedd eich llaw. Ar wahân i hynny y cyfan a gewch yw rhyw drip-drop o ddŵr tap yr ' Anglo-Welsh.'

Gadewais y Ffynnon Fawr yn ŵr sobr ac ofnus. Cofiais imi ddyfod heibio tir Castell Hywel y bore hwnnw ar y ffordd i'r Notais a gweld rhewyn dŵr yn rhedeg drwy ganol maes mawr, llethrog er dyfrhau'r borfa. Lle rhedai'r dŵr yr oedd glesni bywyd ar ei orau, a'r ochr uchaf, lle ni redai'r ffrwd, nid oedd dim ond crinwellt llipa. Dyna neges y *Ffynnon Fawr* !

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe.

AMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CANIADAETH GYNULLEIDFAOL.

Gan Haydn Morgan.

Salmau'r Presbyteriaid.

Tra safai'r ganiadaeth yn hen sylfaen i wasanaethau'r llan, ni ddaeth i mewn i'r cyfarfodydd ymneilltuol, ond fel ffasiwn newydd, ar yr unig batrwm a oedd yn bod. Yr oedd salmau'r eglwys yn fynegiant o'i phrofiad, a datguddiad o'i hordeiniadau, ar y llaw arall, yn y tŷ cwrdd—lle daethai'r emyn hefyd, ar yr un adeg—datganiad oeddynt o *brofiad* a *dyhead* y gynulleidfa.

Ond tybed nad oes olyniaeth uniongyrchol yn dilyn o ganu'r côr yn yr eglwys hyd at ymarferiad yr ysgol-gân ar oriel y capel? Bu'r eglwys ei hun yn bresbyteraidd un adeg. Oni wysiwyd y *Westminster Assembly* yn 1643 (a chyfarfu hwn hyd at 1649, ac fe dynnodd allan hefyd y *Directory of Public Worship and Catechism* [*Shorter and Larger*])—sydd heddiw'n gnewyllyn i bresbyteriaeth drwy'r byd, ei bwrpas oedd deddfu ar y modd i rannu'r wlad yn henaduriaethau oblegid fe gredai'r presbyteriaid mewn cyfundrefn lywodraethol gyfundebol, eglwysig, *ond* un o dan reol henaduriaid. Oni fu wedyn, yn amser y weriniaeth, yr esgobaethau o dan lywodraeth y cyfarfodydd presbyteraidd, a hefyd llawer plwyf drwy'r wlad, yn yr un cyfnod Cromwelaidd ansefydlog, a'u "cynulleidfaoedd" eglwysig o dan fugeiliaeth gweinidogion cynulleidfaol a'r esgobion allan o'u swyddi.

A fuasai'r diadelloedd presbyteraidd (a hefyd rhai o'r rhai cynulleidfaol) a dorrodd allan o'r eglwys, ar sail cyfundrefn yn unig, mor groes i'r ganiadaeth, yr hon ni wrthwynebasant, y tu mewn i'r eglwys? Gwelwn fel y datblygodd ehangder diwinyddol ynddynt, gyda thyfiant Ariaeth, yn nes ymlaen, oblegid fe droes yr hen bresbyteriaid cyntaf (gyda rhai eithriadau) yn Sosiniaid! A oes syndod bod yr emynau cyntaf, protestanaidd yng Nghymru (ar wahan i'r hen hymnau o hil Gatholig, eglwysig) wedi'u cyfansoddi gan yr Undodiaid cynnar, fel yn Llwynrhydowen, lle cafwyd pymtheg ar hugain ohonynt gan yr Ariad y Parch. Jenkin Jones.

Bu canu gan y presbyteriaid cyntaf ac nid yn unman yn fwy croch nag yn yr Alban, y wlad ddiwethaf i "droi", a lle bu'r Diwygiad yn fwyaf trylwyr. O dan arweiniad John Knox, a fu unwaith yn offeiriad, ac a ddaeth wedyn i fod yn gyfaill i Galfin ei hun, daeth y bresbyteriaeth yno yn ei chyfanrwydd. Ef a sefydlodd Galfiniaeth yno a thynnu allan *Y Gyffes Ffydd Sgotaidd* a gyhoeddwyd gan senedd

yr Alban yn 1560. Honno a fu batrwm i *Gyffes Ffydd Westminster* a dderbyniwyd wedyn gan y Sgotiaid, y bu ganddynt ran yn ei pharatoi.

Oni ffurfiodd ein Methodistiaid Calfinaidd ni eu cyfundrefn ar batrwm presbyteriaeth, gyda'u Cyffes Ffydd hwy yn 1823, a'u Cymanfa Gyffredinol yn 1864?

Cawn heddiw ar y gororau Seisnig, bresbyteriaeth newydd unedig, a darddodd o'r Alban, eto—ond allan o'r rhwyg yno yn 1843, pan ddaeth yr Eglwys Rydd Albanaidd i fod. Er dylwn bwysleisio, mai rhan o Fethodistiaeth Galfinaidd Cymru yw'r cyfan bron, o'r bresbyteriaeth Seisnig yng Nghymru heddiw, ynghyd a'r "Forward Movement" *Presbyterian Church of Wales.*

Ond oni chawn ni ein "hen" bresbyteriaeth Undodaidd, eto, â'i "General Assembly" ac yng Nghymru ein Cymdeithas Gymraeg (a ffurfiwyd yn 1802 gan gyfarfod o'r "henaduriaid" yng Ngelli-onnen) a'i "Chyrddau Cwarterol" a'i chasgliadau tuag at athrofa "bresbyteraidd" Caerfyrddin, sydd o dan reol y Bwrdd" Presbyteraidd" yn Llundain. Ni ddylid gwasgu cyffelybiaeth yn rhy bell, oherwydd bod enwadaeth i gyd wedi dod yn gyfundebol erbyn hyn, ond teg yw pwysleisio bod presbyteriaeth wedi bod yn bont i gadw'r ganiadaeth yn ddi-dor o gôr-ganu'r eglwys o'r blaen, hyd at ganu mawr y capel heddiw.

Nodwn felly yma ganu'r presbyteriaid cyntaf. Fe ddaeth o Geneva i'r Alban gyda Salmau cân Sternhold and Hopkins—ond fe'u golygwyd i fod yn gymwys ar gyfer y barabliad yno; bu newid ar frawddegau a sillafu—yn ôl hen Saesneg y tir (nid tafodiaith mohoni ond hen iaith Northumbria). Hefyd, newidiwyd rhai o'r salmau, gan ddodi awduraeth newydd arnynt. Cafwyd gwahanol fawl-wersi. Onid diddorol sylwi bod yr hen gantiglau hefyd megis Cân Moses, a fu'n rhan o'r ganiadaeth Gatholig i mewn o hyd ar y diwedd? Yn nes ymlaen yn y ganrif ddilynol, fe gawn argraffiadau eraill o'r salmau hyn megis ag yn 1635, a'r gerddoriaeth yn y *Bassus Primus Tenor a Contra.* (Fel y dywed Voltair, "po fwyaf y newidia pethau, mwyaf i gyd yr arhosant yr un").

Wele ddechrau Salm 23 (gan Wm. Whittingham, *nid* Th. Sternhold)—

The Lord is only my support
  and hee that doth me feede,
How can I then lacke aniething
  where-of I stand in need.

a'r fawl wers,

"Gloir to the Father and the Sonne
  and to the Hailie Gaist,
As it vvas in the beginning
  Is novv and aye shall last".

Defnyddiwyd ar y pryd hwn y wyddor Ladin heb yr w.

Cafodd Edmwnd Prys ddwy dôn allan o "Sallwyr Knox" a ddaeth allan yn 1595 ; y mae enw'r diwygiwr yn bwysig o hyd hyd heddiw er iddo farw yn 1572.

Rhoddwn yma un ohonynt—

{ |d :—:m :r :m :d :r :m :f :—|f :— :m :r :d :l, :r :— }

{ |r :—:r :m :r :d :d :t, :d :—|m :— :r :d :d :t, :d :— }

Yn 1650 daethpwyd â mydryddiad newydd allan o'r salmau gan Francis Rous, ar gyfer yr Alban. Nid oedd tŷ cwrdd ar y Gelli-onnen bryd hynny, ond efallai fod hen eglwys Llaneithrym yn sefyll, oblegid sonir mai gwŷr Oliver a'i difethodd (fel y gwnaethant â llawer crair arall o babyddiaeth) ar eu ffordd i Benfro. Ond gellir dychmygu oddi wrth yr hen gaeau bychain corsog sydd o amgylch y capel heddiw, a'u hen dderi crin yn y perthi, bod rhyw dyddyn yn y fan o'r blaen, a wnaed efallai'n dŷ cwrdd, ac a gafodd ei helaethu wedyn yn 1697, bum mlynedd ar ôl ei agor.

Os nad yw'n debyg fod y pennill canlynol o'r "Old Scotch version" adnabyddus (a ddaeth o'r salm-gân 23, gan F. Rous) wedi'i ganu yng Ngellionnen y mae'n eithaf posibl fod yr hen dôn sydd wrth ei ben (a gafwyd gan E. Prys allan o Sallwyr Knox) wedi'i ganu yno.

{ |d :—:d :d :r :r :m :—:m :m :—|d :—:d :d :r :m :f :— }

{ |m :—:m :m :r :r :d :—:d :d :—|r :—:m :(m):r :r :d :— }

"The Lord's my shepherd I'll not want
He makes me down to lie,
In pastures green ; he leadeth me
The quiet waters by.

Cenir yr emyn hwn fel rheol heddiw ar "Kilmarnock", salm-dôn a ddengys effaith y canu gwerin, Sgotaidd, gan ei bod hi yn y raddfa Pentatonic (a geir ar y pibau)—*heb* f, na t.

{ :d |m :s |l :s.m|m :r |d :— ||l |s :d'.l|s :d..r|m :r ||

{ :s |l :s |d' :m.r|d :r |m :— ||l |s :d.,r|m :r |d :— ||

Nodwn y salmau Gaeleg, a baratowyd gan Synod Argyll a'r gwell mydryddiad ohonynt a gafwyd gan Dr. Smith yn 1806—fe wnaeth y presbyteriaid ymdrech i gwrdd â gofynion y rhannau o Sgotland a siaradai yr heniaith frodorol yng Nghymru, yr anghydffurfwyr a achubodd yr iaith.

Sylwer fel y cafwyd, yn 1774, "Crynodeb y Salmau Cân" gan Griffith Jones, *Person* Llanddowror" (*nid offeiriad mohono nid yw'r mudiad uchelegluysig wedi cyrraedd eto*). Dywed am yr angen i efengyleiddio'r salmau (heb sôn am drosiad rhagorol Dafydd Jones [o Salmau Efengylaidd Watts] a oedd yn boblogaidd bryd hynny).

"Mor ddymunol yw cyfansoddiad mwy efangylaidd a rhwyddach i bawb ddyall o'r salmau cân . . . fel megis y mae'r athrawiaeth a gwasanaeth . . . a ordeiniodd Duw, dan ei efengyl yn fwy eglur ac ysbrydol nag oedd . . . yn nefodau'r eglwys Iuddewig dan yr Hen Destament, y gallai ein mawl ni i Dduw ar fesur cân a chynghanedd y salmau, i fod felly".

Sonia am yr "*esgeulusiad mewn cynnulleidfaoedd cyhoeddus, a theuluoedd gartref am ganu mawl*". *Wele gyflwr canu'r eglwys wladol ar y pryd.* Newydd ddod allan oedd Llyfr Gweddi 1770, â thonau Ifan William.

Yn y ganrif ganlynol daeth y bresbyteriaeth Gymraeg allan o'r eglwys, ac yn llyfr emynau cyntaf cyfundebol y Methodistiaid Calfinaidd a ymddangosodd yn 1869 fe geir eto ddetholiad lled lawn o Salmau Cân Prys ; nodwn y pennill cyntaf o Salm CXVII, a chan mai canu presbyteraidd yw'r testun rhoddwn y dôn arall eto a gafodd yr Hybarch Edmund Prys, o Sallwyr Knox wrth ei ben.

{ :r :—:f :r :m :r :t, :d :r :—|f :—:m :f :m :(m):r :(r):m :— }

{ :m :—:m :f :s :f :m :r :d :—|f :— :m :r :f :m :r :— }

O cenwch fawl i'r Arglwydd nef
Moliennwch Ef genhedloedd,
Molwch ei enw ef drwy'r byd
Chwithau i gyd y bobloedd.

(*I barhau*).

Coed, Ysglod a Blawd Llif.

Gan Tom Evans, Aberaman.

(*Parhad*).

Yn yr hen amser, arferai pob ffermwr gwerth yr enw, gadw stoc dda o goed caled a meddal ar ryw storws neu'i gilydd yn barod i gwrdd â'i ofynion. Fel arfer, byddai estyll derw wedi ei dewis ar gyfer ei arch ef a gweddill ei deulu hefyd.

Byddai'n waith caled, am hanner diwrnod weithiau, i saer blamio un astell yn raenus, gan mor galed ac anwastad ydoedd. Defnyddid pob dyfais hefyd i gael yr anwastadrwydd, y *twist* a'r *wharp* allan o'r estyll fel y gellid eu trin yn haws. Un ffordd tra effeithiol oedd rhoi'r wyneb pantiog (*concave*) ohoni ar wlithog borfa'r bore, gan adael i'r haul grasu'r wyneb arall, a'i dwyn felly i siap y gellid eu plamio'n weddol.

Daw hyn â mi at y pwynt fod pren, er wedi ei ddatgysylltu â'r ddaear, ac mewn ffordd wedi ei ladd, yn parhau i fyw o hyd. Deil yn fyw i bob newid yn nhymheredd ei amgylchfyd o awr i awr. Ni ellir cael gan bren beidio ag ymateb i'r newid mewn lleithder a gwres o'i gwmpas. Am hynny, chwyddo a thynnu ato, hollti a newid ei siap a wnaiff yn barhaus, a'r mwyaf prydferth o'r coed yw'r mwyaf castiog yn hyn o beth. Dyma felly broblem fawr y saer coed, sef dod o hyd i'r ffordd orau i ddodi darnau o goed anwadal wrth ei gilydd, mewn modd celfydd, fel y gallont yn y ffordd fwyaf effeithiol wrthsefyll y tueddiadau naturiol hyn ynddynt. Wedyn, am mai nid yr un yw'r driniaeth, yn union, a ofyn pob math ar bren, rhaid dod yn gyfarwydd â thueddiadau gwahanol goed o dan wahanol amgylchiadau hefyd cyn y gellir eu trin yn briodol.

Y ffordd fwyaf effeithiol yw gosod un darn o bren sydd a'i duedd i fynd i un cyfeiriad yn sownd wrth ddarn arall sydd a'i duedd am fynd i gyfeiriad gwahanol, ac felly, gwneud i un darn gaethiwo'r llall megis ! Eu gorfodi i wrthweithio tueddiadau ei gilydd. Mae'r dyfeisiadau diweddaraf i fedru gwneud hyn yn gwbwl effeithiol ac wedi chwildroi'r modd i ymdrin â choed er gwneud celfi ohonynt. Ond dychwelwn at hyn yn nes ymlaen.

Y gofyniad cyntaf a ddylid ei ofyn wrth brynu celficin yw, "A fydd yn ateb yn union y pwrpas sydd mewn golwg wrth ei brynu" ? Os na wnaiff hyn, ni fydd o ddiben yn y byd ei fod o'r defnydd gorau, o wneuthuriad da, yn taro'r gweddill o'r celfi o'i gwmpas, neu ei fod yn brydferth a sglein dda arno. Defnyddioldeb dodrefnyn a rydd iddo ei werth uchaf bob amser. Wedi penderfynu hynny y gellir gweld ynglŷn â'r rhinweddau neu'r gofynion eraill. Prif amcan cadair, er enghraifft, yw rhoi lle i eistedd. Rhaid iddi fod, yn gyntaf peth, yn gryf a chysurus at hynny. Wedyn gellir ystyried y gofynion eraill. Nid yw cadair bert na ellir ei defnyddio, yn gadair o gwbwl.

Peth arall, rhaid dewis y defnyddiau gorau, "dewis pren ni phydra"; a'r lleiaf tueddol i fynd o'r siap a roddir iddo ar y dechrau. Yna, gweld fod y gwahanol ddarnau wedi eu dodi wrth ei gilydd yn briodol, ac mewn ffordd i allu gwrthsefyll y tueddiadau naturiol y soniwyd amdanynt i newid eu siap gydag amser. Dylasai fod o'r

defnydd uchaf a'r mwyaf cadarn yr un pryd. Os llwyddir, mi fydd gennych waith celfydd, ond ddim heb hynny.

Ar ôl ei gael, gellir galw'r cerfiwr a'r *polisher* at eu gwaith os mynnwch.

Ychydig iawn os dim o bolish a roid ar yr hen gelfi derw 'slawer dydd. Wrth eu rhwbio am flynyddoedd a chŵyr gwenyn, etc., y mae'r sglein a welir arnynt heddiw wedi dod. A chyda llaw, dyna'r *polish* gorau a ellir ei roi ar goed caled. Y drwg yw, ei fod yn cymryd cymaint o amser. Mae'r sglein hwn yn fwy na rhywbeth ar y wyneb yn unig ; fe dynn allan harddwch mewnol y pren yn ogystal.

Fe wnaed y rhan fwyaf o'r celfi yn ein gwlad ni yn gadarn a chelfydd dros ben o'r coed deri gorau gan ddefnyddio'r fortais a'r peg a'r panel i'r amcanion gorau. Fe'u gwnaed o dderi yn bennaf am ei fod yn tyfu yma, ac ar yr un pryd am ei fod yn gryf, graenus a hir-barhaol. Yn enwedig yr hyn a dyf ohono yng Nghymru. Mae'r ymdrech a gaiff i dyfu rhwng bryniau ein gwlad yn ei galedu a'i harddu. Y bai mwyaf o bosibl arno yw fod eisiau gofal ac amynedd mawr wrth ei sychu, ei galedu a'i lifio—a'i fod yn dueddol i wharpo a chracio yn y cyfamser. Rhaid cofio am y tueddiadau hyn felly, wrth ei weithio, a gweld yn un peth, ei fod yn hollol sych cyn dechrau arno. O wneud hyn gellir gwneud celfi penigamp a phrydferth dros ben ohono.

Ni chyfrifir ef, er hynny, cystal heddiw o bell ffordd â mahogani a walnut a rhai coed eraill.

Arferai'r hen grefftwyr eu harddu drwy osod borderi o linellau—*strings*—o fahogani, box neu eboni mewn mannau arbennig arnynt, neu drwy ei gerfio. Ond os cerfio, byddai'n rhaid dewis deri addas at hynny, sef deri sydd a'i raen-drwyddo o'r un caledwch. Er bod bron holl dderi Cymru o'r math gorau at waith cerfio nid pob deri sydd felly.

Y mae tyfiant pren yn y gwanwyn a'r haf yn fwy meddal fel rheol na'r hyn a ddigwydd yn yr hydref a'r gaeaf. Mae'r gwahaniaeth mewn ambell fath ar goed yn fawr, ac mewn eraill ond y nesaf peth i ddim. A'r coed sydd a'u caledwch yn fwyaf cyfartal drwyddynt, wrth gwrs, yw'r gorau, ac y mae hyn yn nodweddiadol o dderi Cymru, ac felly'n ateb y cerfiwr i'r dim.

Ond nid oes cymaint o alw am waith wedi ei gerfio heddiw ag a fu. Y mae gormod o waith glanhau arno, ac felly gofynwyd am, a chafwyd celfi a llai o gorneli i grynhoi llwch ynddynt. Y mae hyn, felly wedi chwildroi y ffordd y gwneir y rhan fwyaf o'r celfi yn ein hoes ni. Celfi plaen a llyfn a'i piau hi heddiw. Celfi sy'n dibynnu ar brydferthwch naturiol graen y pren ei hun i'w harddu yn fwy na dim arall, fel cerfio, mewnosod (*inlay*) ac yn y blaen.

Felly, gair bach eto ynglŷn a'r celfi modern yma ac fe gewch chwi wedyn farnu ai gwell ai gwaeth ydynt na'r hen.

Yr ydym bawb, 'rwy'n siwr, wedi gweld un darn o bren llydan, llydan, fel mewn to bws, er enghraifft—yn cyrhaedd o un ochr i'r llall, heb dorr na chydiad ynddo, a thybio ei fod wedi dod o goeden anferth—dwy lath, neu ragor ar ei thraws. Fel mater o ffaith, er hynny, gall mai o ddarn o bren ychydig o fodfeddi ar ei draws ei cafwyd. Mae peiriannu i'w cael heddiw a all "bilo" tafell denau o dewdra dalen o bapur, fel fe pai yn dadrolio corn o frethyn. Dodir darn o goeden yn y peiriant i droi yn erbyn cyllell o'r un hyd, ac wrth droi fe dyrr y gyllell haenen denau i ffwrdd. Pan geir darn o bren, eithriadol o brydferth, oherwydd y "ffigwr" a geir yn ei raen, fe dorrir yr arddalen denau yma mewn ffordd arall, gan lif eithriadol o ffein weithiau, neu gan beiriant fel plâm mawr a dyrr dafell denau ar hyd y pren—yn ei sleisio fel torri cig moch dyweder, yn hytrach na'i ddadrowlio megis. Y ffordd hon a ddefnyddir gyda'r coed mwyaf prydferth a chostus, ac a'r "burrs" fel ei gelwir. Ni ellir gwastraffu'r coed tlysaf drwy eu torri yn estyll a'u defnyddio felly. Gelwir yr haenen denau yma yn *Veneer*, ac fe'i defnyddir at wahanol amcanion. Defnyddir peth, weithiau, i fod yn ddim mwy na gorchudd i guddio beiau, a dyna'r *rub* oblegid ni ellir gweld o gwbwl pa fath bren na chrefftwaith sydd o dani. Ond os yw'r hyn sydd o dani wedi ei wneud yn dda ac o'r defnyddiau priodol yna pob peth yn iawn.

Ni cheir yn yr hen gelfi ond ychydig iawn o Veneer, a hwnnw wedi ei roi yn unig i harddu'r celficyn ac ar bren o'r un fath ag yntau, ond heb fod mor bert ei raen. Gan fod ansawdd dodrefn diweddar yn dibynnu bron i gyd ar yr hyn a orchuddir gan yr arddalennau tenau yma, rhaid egluro sut y dylai'r rhannau hynny gael eu hadeiladu. Gwneir estyll i fyny, i ddechrau, i fod yr hyn a elwir yn *ply wood*, neu yn *laminated boards*. Fe'u gwneir mewn gwahanol ffyrdd, ac i bob trwch bron. Gwneir y *ply woods* drwy ddodi haenen o Veneer y naill, o hyd yn groes i raen y nesaf ati, eu gludo wrth ei gilydd a'u rhoi dan dunnelli o bwysau nes sychu. Nid oes shrinco na hollti i fod i'r estyll yma, gan mai gyda'r graen yn unig y gall pren hollti, ac yn groes i'w graen y ' tynn ato.'

Ffordd mwy effeithiol fyth, a'r ffordd a ddefnyddir gyda'r celfi gorau oll, yw eu gwneud o'r *laminated boards*.

Un gair eto am y *Veneers* a ddefnyddir ar wyneb y celfi gorau er mwyn ei harddu. Deuir o hyd i ddarn pert ei raen, yna fe'i sleisir mor denau fel nad oes ond mesur lleiaf o wahaniaeth rhwng patrwm a graen yr arddalen gyntaf a'r ail, a'r drydedd, neu'r bedwaredd hyd yn oed. Yna wedi cael pedair a ymddengys bron yn union yr un patrwm, fe'u dodir wrth ei gilydd.

Yr un fath gyda'r *burrs*. Dywedir mai pryfed sy'n achosi'r *burrs*

yma. Fe dorrant i fewn drwy'r rhisgl at yr haenen dyner o bren sydd odano ac yno byddant yn bwyta gan symud o fan i fan a magu a chreu clwyfau yn y pren. Ymdrecha'r pren wedyn i wella'r clwyfau yma ond ar ei waethaf erys crach a chreithiau a chwydd mawr weithiau. Ond o dorri drwy'r grachen neu'r creithiau yma, fe geir graen hynod brydferth weithiau. Y mae dyfais at bob peth erbyn hyn ac un o'r diweddaraf y clywais amdani yw eiddo rhyw ŵr sy'n arbrofi gyda chynhyrchu coed o bob lliw. Y mae'n tyllu bôn coeden a chwistrellu lliwiau o bob math i sianelau'r sug. Clywsom yng Nghymru am ' goed glas ' ond os caiff hwn ei ffordd byddant yn llythrennol felly cyn hir iawn !

Gohebiaethau.

Ym mhwyllgor blynyddol yr Ysgolion Sul yn Llwynrhydowen, awgrymwyd gan y Parch. J. Marles Thomas mai da fyddai i'n Hysgolion Sul y flwyddyn nesaf gynnal Gŵyl arbennig. Y cynllun mewn golwg oedd perfformio Pasiant Crefyddol ar ryw destun yn ymwneud â "Hanes Undodiaeth", a chael gan blant a phobl ifanc ein gwahanol Ysgolion Sul i gymeryd rhan. Credir y rhydd y cynllun gyfle i ieuenctid ein henwad ddod at ei gilydd, ac i ffurfio Cymdeithas yr Ifanc, a chael Cymanfa Undebol flynyddol dan nawdd yr Ysgol Sul.

Penderfynwyd danfon yr awgrym allan, a gofyn i'n Hysgolion Sul roddi ystyriaeth iddo. Y mae ar fwriad gennym alw pwyllgor, ac ymhlith materion eraill, ceir trafodaeth ar y cynllun hwn. Os am fanylion pellach danfoner ataf.

(Miss) S. A. Evans, "Dedwyddfa", Llandysul.

80, Victoria Ave. S.,
Hamilton, Canada.
Mawrth 30, 1952.

Golygydd Yr Ymofynnydd,—

Yr oedd traethawd Hesgin yn fwy na gwerth pris Yr Ymofynnydd am flwyddyn. Peidied y Golygydd chwaith ag ymddiheuro am hyd ei sylwadau ar y traethawd. Yr oedd y sylwadau yn gampus—ychwaneg os gwelwch yn dda. Dyna wir a ddywedai Hesgin am ddylanwad llyfrynnau yr R.P.A.—hyd yn oed yn y lleoedd mwyaf diarffordd yng Nghymru. Yng nghymoedd Ardudwy y darllenais i ddwsinau ohonynt ac fe'u ceid ar bob gorsaf trên a phob stondin lyfrau ym mhobman am 6ch. yr un. Dyna pam yr wyf yn Undodwr heddiw, er imi gael fy magu'n fab i flaenor Methodus a cheidwad yr Athrawiaeth Galfinaidd. Penarglwyddiaeth Duw, etholedigaeth gras,

cyfiawnhad drwy ffydd, etc.—dyna'r pynciau a ddiliwyd i f'ymennydd ac yr oedd y toriad yn ysgeg seicolegol gyda'r greulonaf i ŵr ifanc.

Yn sylwadau'r Golygydd fe gwynir na thry y cannoedd sy'n credu fel Hesgin at Undodaeth. Ni wn i on'd ychydig am y safle yng Nghymru ers tri deg o flynyddoedd eithr mi wn sut y saif pethau yng Nghanada. Y mae yma un genhedlaeth o bobl ddeallus—pobl wedi cael ychydig mwy o addysg na'r cyffredin o 30 i 40 oed ac y sydd yn hollol ddi-grefydd. Credant taw ffârs ag ofergoel yw'r cyfan. Eithr pan gyflwynir iddynt Undodaeth, er nad ymunant eu hunain, fe ganiatânt i'w plant fynychu yr ysgol Sul Undodaidd ac fe ânt a hwy yno yn eu moduron a'u cyrchu adre wedi hynny.

Fe ymddengys i'r eglwysi uniongred, drwy adeiladu ar graig ddisymud credoau, ddieithrio cenhedlaeth neu ddwy o bobl ddeallus oddiwrth grefydd yn gyfangwbl. Ond y mae gobaith eto i ennill eu plant i'r rhinweddau a'r grasusau Cristnogol os gofalwn adeiladu ar gors tragwyddol newid. Y mae'r sialens yn un ogoneddus o atyniadol a llawn ysbrydoliaeth. Y nod yw Teyrnas Nefoedd ar y ddaear hon ag er gwaetha'r holl gythrwfl, mi gredaf eisoes fod pinac lau'r ddinas ar y gorwel. Fe'u gwelodd Gwynn Jones hwy.

"Yn y fro ddedwydd mae hen freuddwydion,
A fu'n esmwytho ofn oesau meithion.
Byw yno byth mae pob hen obeithion.
Yno mae cynnydd uchel amcanion.
Ni ddaw fyth i ddeifio hon—golli ffydd
Na thro cywilydd na thorri calon".

Llwyddiant i chwi—

ROBT. WYNNE.

Marwgofion.

IONOR 31, yn 42 oed, claddwyd ym mynwent Llwynrhydowen, yng ngwydd tyrfa barchus o'i gyfeillion, THOMAS MORGAN, annwyl briod Mrs. Morgan a thad Gwyneth a David, 98, Heol y Prior, Caerfyrddin. Torrwyd ef i lawr yn ddyn ieuanc, heini, ac annisgwyl oedd ei farw y prynhawn Sul blaenorol. O fewn tair wythnos i'w symud i Ysbyty Caerfyrddin yr oedd yn gyson wrth ei waith yn y Carmarthen Bay Power Station, ond ni allai triniaeth feddygol ei achub. Yr oedd gair rhagorol iddo ymhlith ei gydweithwyr; meddai ar bersonoliaeth a'i gwnai yn boblogaidd ym mhob cylch y bu'n byw ynddo. Yn ystod y Rhyfel bu'n gwasanaethu fel swyddog peiriannau yn y Merchant Navy. Cyn dod i Gaerfyrddin ychydig dros flwyddyn yn ôl bu'r teulu'n byw yn Gloucester. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Prifathro J. D. Jones a'r Parchedig T. R. Evans, Llandysul. Gyda'r teulu a'i gysylltiadau lawer yng Nghapel Dewi a Phontshan y mae'r cydymdeimlad dyfnaf.

Ebrill 13, Dydd Sul y Pasg, yn Ysbyty Aberystwyth, bu farw JANE ELUNED (JENNY) ail ferch Mr. a Mrs. David Davies, Blaenhirbant-uchaf, Cwmsychbant, a hithau ar drothwy naw mlwydd oed, er tristwch mawr i gymdogaeth eang. Yr oedd yn eneth dlos atyniadol, a siriol iawn, ac yn amlwg ac annwyl ymhlith ei chyfeillion. Bydd bwlch ym myd plant yr ardal ac ysgol Cwrtnewydd a'r Côr ac ysgol Sul Capel y Cwm o'i cholli. Mwynhaodd iechyd da hyd y Gwanwyn eleni, ond ymollwng a wnaeth i'r afiechyd a'i goddiweddodd yn awr. Cyfyngwyd yr angladd i berthnasau a chymdogion, ond daeth nifer mawr ynghyd i gyd-alaru â'r teulu yn ei colled trist. Amlygwyd parch y cydalarwyr yn nifer y plethdorchau, tros bedwar ugain o honynt a osodwyd ar ei bedd. Gofynnir yn daer am nodded y nef i'r tad a'r fam ac i Mary fach ei chwaer. Gwasanaethwyd yn yr angladd y dydd Gwener dilynol yng Nghapel-y-Cwm gan ei Gweinidog, y Parch. S. E. Bowen a'r Parchn. Lewis Williams ; J. Marles Thomas ; Iorwerth Davies (B), Cwrtnewydd ; S. Morgan (Ficer), Llanwenog ; D. J. Jones (Ficer), Silian a W. M. Jenkins (Ficer), Talgarreg.

Newyddion yr Enwad.

DARLLEDIAD YR HEN DY CWRDD, ABERDÂR.—Sylwer mai ar nos Sul, y 29 o Fehefin, y bydd y darllediad yma ac nid yn y bore. Yr amser yw 7.45—8.25 p.m.

CYMANFA GERDDOROL SIR FORGANNWG.—Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel y Graig, Trebanos, Llun y Pasg, Ehrill y 14eg, 1952. Dechreuwyd cwrdd y bore gan Miss Mary Williams, aelod ieuanc o eglwys y Graig. Yr Arweinydd y tro hwn oedd Mr. Isaac Hopkin, B.Sc., Organydd yr eglwys. Dyma ei dro cyntaf, ac am ei ffyddlondeb i'r Gymanfa oddiar pan yn ieuanc iawn, teilyngodd gael yr anrhydedd o arwain. Yr oedd yn amlwg o'r cychwyn ei fod yn feddianol ar fedr nid bychan i wneud y gorchwyl, a dylanwad ei ysbryd mwynaidd i'w ganfod yn dwyn y gorau allan o'r cantorion. Hefyd yr oedd yn amlwg fod disgyblu da wedi ei wneud i baratoi at waith y dydd gan gantorion Gellionnen a'r Graig, a diolch am hynny, canys yno y mae grym gorau'r Gymanfa. Mr. Emrys Hopkin oedd wrth yr Organ a gwnaeth yntau ei orchwyl i fodlonrwydd. Yn ystod cwrdd y bore adroddodd Brian Thomas a Tudor Williams o'r Graig rai o'r emynau cyn eu canu. Rhydd hyn dipyn o ysbrydoliaeth i'r cantorion wrth glywed plant yn adrodd mor swynol. Llywydd cwrdd y bore oedd Mr. Edgar Williams o'r Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, a chafwyd ganddo araith bwrpasol iawn, gan bwysleisio gwerth y Gymanfa i'n eglwysi, ar pwysigrwydd o'i chadw yn fyw drwy fod yn ffyddlon iddi. Teimlem wedi cwrdd y bore fod rhagolygon am Gymanfa dda. Dechreuwyd cwrdd y prynhawn gan y Parch. D. Jacob Davies, B.A.,

Aberdâr. Erbyn hyn yr oedd y cynulliad wedi cynyddu, ac erfynwyd am ganu da, ac ni chafwyd siom. Bu hwyl mawr ar y tonau ac i goroni'r cyfan cafwyd datganiad neilltuol o dda ar y Chorus "And the Glory of the Lord". Llywyddwyd cwrdd y prynhawn gan Mr. Evan D. Arthur, B.A., Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed. Cafwyd araith bwrpasol iawn ganddo yntau eto, yn llawn o awgrymiadau da ac apêl daer am ffyddlondeb. Yn ystod y cwrdd yma cafwyd adroddiad gan Miss Nancy Evans o eglwys y Graig. Hefyd, siaradodd y Dr. R. O. Jones, Llundain, a diolch iddo am ei gyfraniad i lwyddiant y Gymanfa. Pan ddaeth cwrdd yr hwyr yr oedd yn amlwg fod yr hwyl wedi cynhesu yn fwy, fwy, y safon yn codi o hyd, a'r Arweinydd yn dangos ei fedr i gael y gorau allan o'r cantorion. Dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Llandysul. Yr oedd y capel yn orlawn, a meddianwyd y cantorion yn ddios gan ysbrydiaeth y gwahanol emynau, a'r enaid i gyd yn y gân. Cafwyd hwyl arbennig ar rai o'r tonau, ac unwaith eto datganiad meistrolgar o'r Chorus. Llywydd y cwrdd yma oedd y Parch. R. Islwyn Pritchard, B.A., Gweinidog y Gellionnen a'r Graig. Yr oedd y canu wedi codi ei hwyl yntau, a rhoes araith bwrpasol a chynhwysfawr iawn. Yn ystod y cwrdd cafwyd adroddiad gan Mrs. Ceinwen Davies o eglwys y Graig. Hefyd, cafwyd araith gan Mr. D. T. Williams, Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr, hwylus iawn oedd ef fel arfer yn traethu ei araith gynhwysfawr a byrlymau ag apeliadau taer ar ran y Gymanfa a'r enwad yn gyffredinol. Ond aeth i gyweirnod arall, gan gyfeirio at y golled oedd wedi ein goddiweddyd trwy farwolaeth y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen ; colled enfawr i'r Gymanfa a bwlch nid hawdd ei lanw i'r enwad. Gofynnodd Mr. Williams i'r Arweinydd a'r cantorion ganu y dôn "Tyddewi" er cof amdano, ac awgrymodd ei fod ef yn credu fod bws Ceredigion ar goll heddiw oherwydd absenoldeb Jenkins y Llwyn. Canwyd y dôn gydag arddeliad a hawdd oedd canfod dymuniad dwys am gyd-gwrdd eto tuhwnt i'r llen. Wel, daeth y Gymanfa i derfyn mewn hwyl a llwyddiant mawr. Ni bu'r hin yn rhy garedig inni, disgynnodd y glaw yn gyson o'r bore hyd y prynhawn, ond ni effeithiodd ar y canu. Diolch i'r arweinydd am ei arweinyddiaeth fedrus, ac i'r cantorion am eu hymateb i'r baton. Diolch i bawb a wnaeth rywbeth i hwyluso gwaith y dydd, ac yn olaf, diolch i'r ymwelwyr ac i chwiorydd eglwysi Gellionnen a'r Graig am baratoi lluniaeth a digon ohono. Penderfynodd y pwyllgor fod y Gymanfa y flwyddyn nesaf i'w chynnal yn y Cefn Coed ar Llun y Pasg. Anghofiwyd gwneud y cyfeiriad yma wrth sôn am araith Mr. D. T. Williams. Hynod o beth iddo gyfeirio ar farwolaeth y Parch. E. O. Jenkins a cheisio am ganu'r dôn "Tyddewi" oblegid erbyn hyn y mae yntau ar ei wely cystudd ac yn lled ganolig. Dymunwn yn daer am adferiad buan iddo, er cael ei gwmni diddan a hawddgar yn ein plith eto.

CAPEL-Y-BRYN.—Ychydig amser yn ôl hwyliodd Hywel Jenkins, mab ieuaf y diweddar Mr. a Mrs. Griffith Jenkins, Tanrallt, Cwrtnewydd i British Guiana. Bu yn llwyddiannus i gael ei ddewis yn is-arolygwr ar blanhigfa yno, a dymuna cynulleidfa Capel-y-Bryn a chymdogaeth Cwrtnewydd bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

"YR YMOFYNNYDD".—Cawsoch bedair tudalen dros ben y mis diwethaf, ond gwaetha'r modd bydd rhaid ei tynnu 'nôl o ryw rifyn yn y dyfodol er mwyn cadw at y lwans. Cawsom ddau gyfraniad at ei gronfa yn ystod y mis, eiddo Cymanfa Ganu De-Ddwyrain Morgannwg—£2 a £1 oddi wrth H. Morgan. Bu'r ymateb yn ardderchog a diolchaf i chwi am eich cymeradwyaeth sylweddol i waith y Golygydd a'i gyfeillion.

CAPEL PENRHIW.—Daeth protest newydd ynglŷn â symud yr hen gapel i Sain Ffagan yn ystod y mis diwethaf a hynny oddi wrth Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin. Gofynasant i'r Amgueddfa gadw'r adeilad ar ei hen seiliau a gofalu amdano yno. Clywaf y bydd y Dr. Iorwerth Peate yn ateb nad yw hynny'n bosibl a'i fod yn trefnu dechrau ei symud tua'r Hydref nesaf.

ABERDÂR.—Y newydd pwysicaf yma yw fod Mr. D. T. Williams yn parhau i wella'n gyflym a'r gobaith yn uchel bellach am wellhad llwyr a buan. Y mae'r Hen Dy Cwrdd yn cyhoeddi apêl am gymorth i godi carreg goffa i'r diweddar Barch. E. R. Dennis. Os carai rhywrai roddi swm fach neu fawr at yr achos fe'u derbynnir yn llawen gan Mr. D. R. Davies, 7, Cledwyn Terrace, Aberdâr.—Clywsom gyda llawenydd fod Hywel R. Davies wedi ennill y wobr flaenaf am benillion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Aed ati eto a dringed yn uwch yn nhraddodiad beirdd yr Hen Dŷ Cwrdd. Camp rhwng 9 ac 11 oed oedd, a'r testun oedd—

CASTELL TYWOD.

AETH Benni bach a minnau
Am dro i draeth Llannon,
Gan feddwl codi castell,—
Un cadarn, newydd sbon ;
Aeth Ben i brynu bwced
A minnau i brynu rhaw,
Ac yna torchi'n llewys
A gweithio yn ddi-fraw.

Aeth Ben i wneud y muriau,
A minnau i wneud y ffos,
Ein dau yn chwys diferu,
'Gael cwpla cyn y nos ;
Mae'n tyfu bob yn dipyn,
Ac ynddo bedwar tŵr,
Mae'r castell bron yn barod,
A'r ffos yn llawn o ddŵr.

Mynd adre'i gysgu'n dawel
'Rôl diwrnod da o waith,
A chodi'n fore drannoeth
I gychwyn ar ein taith
I brynu baner Cymru
I'w chwifio ar y tŵr,—
Ond er ein mawr ryfeddod
'Roedd y castell dan y dŵr !

—Mewn gwasanaeth arbennig a luniwyd ar gyfer Sul "Neges Heddwch Plant Cymru", Hywel oedd yn darllen neges y Parch. Gwilym Davies i blant y byd. Gydag ef wrth y gwaith yr oedd dau aelod ifanc arall, Medi

Williams a Ryan James. Soniodd y gweinidog am *draddodiad heddwch* Aberdâr a'r Hen Dŷ Cwrdd ac am waith David Edward Hughes, y Cymro a ddarganfu'r Radio o flaen neb arall.—Ar y 25ain o Fai cynhelir Cymanfa arbennig o hen ganeuon Sankey a Moody yn Highland Place. Golygwyd ac ail-sgrifennwyd y geiriau gan y gweinidog.

DEIGRYN AR OL JENNY FACH (BLAENHIRBANT)

DAETH y ddrycin i Flaenhirbant,
Lle'r oedd hedd awelon iach ;
Colli trysor drutaf aelwyd,
Ydoedd colli Jenny fach.
Fel y lili fach sy'n gwenu,
Heb weld heulwen Haf erioed,
Hithau heb weld hafddydd bywyd,
Aeth i'w bedd yn naw mlwydd oed.

Ebrill eto ddaw a'r Gwcw,
A'r friallen yn ei gôl,
O mor drist yw sylweddoli
Na ddaw Jenny fach yn ôl.
Os caf fyw af yno eto,
Dymor Gaea, dymor Haf,
Ond gweld Jenny fach yn rhedeg
Mwy i'm hateb byth ni chaf.

Wylo wnawn uwch bedd agored,
Fel heb obaith yn ddihedd ;
Methwn yno weld fod bywyd,
I barhau tu hwnt i'r bedd ;
O na chawsent hwy'n eu dagrau,
Ambell drem trwy gil y ddôr,
I weld Jenny fach yn canu
Gyda'r Iesu yn y côr.

JONES POST.

Y Cwpwrth Llyfrau.

ADDEWAIS ers tro byd i gyhoeddi adolygiad ar *Salmau'r Mynydd*, casgliad o emynau a thonau a sgrifennwyd gan aelodau Gellionnen a Threbanos. Cyhoeddwyd ef gan eglwys y Graig, Trebanos mewn clawr lliain, ac fe'i ceir oddi wrth Mr. Haydn Morgan, 198, Swansea Rd., Trebanos, Abertawe am bedwar swllt. Dengys ysgrifau manwl Mr. Haydn Morgan o fis i fis yn YR YMOFYNNYDD pa mor ddiddorol yw hanes emynyddiaeth y Cymry a dylai'r llyfr hwn fod yn

ddogfen bwysig yng nghorff yr hanes hwnnw. Y mae'r llyfr yn cynnwys cant o dudalennau ac y mae ei ffurf, y mynegai a'r bras nodion am awduron yn glod i waith golygyddol y Parch. Islwyn Pritchard, mi dybiaf. Y mae yma luniau glân o Josiah Rees a'i feddfaen ynghyd â llun yr hen gapel hanesyddol ar y mynydd. Cytunaf â'r golygydd pan ddywed "*nid aberthwyd meddwl a llyfnder ymadrodd ar allor cywirdeb orgraff*" ond ofnaf fod ambell gymal afrwydd wedi llithro heibio i'w lygad craffus. Sylwais hefyd fod cwpled gwahanol i'r gwreiddiol yn yr emyn Isgoed ar dud. 36. Y mae *Salmau'r Mynydd* yn ei osod fel yma,—

"Pob nefol nodd a rydd ei lli'
A phrawf o'r gwynfyd sydd i ni".

Yn llyfr Josiah Rees ceir,—

Pob nefol rodd a rydd i ni
A melys brawf o'r gwynfyd fry".

Carwn roi clod arbennig i'r emynwyr a'r cerddorion cyfoes sydd wedi taro tinc newydd ar delyn yr enwad a dyfynnaf ran o'r rhagair i ddiweddu. "Nid cofgolgofn i'r gorffennol yn unig yw'r llyfr hwn, ond credwn y dengys hefyd addewid am y dyfodol. Ni chrogasom ein telynau ar yr helyg. Ymhlith y cyfansoddwyr y mae dwy eneth ieuanc, bymtheg oed . . . ac o dan gyfaredd a hud cysegr y mynydd fe'u hysbrydolir hwy a rhai ieuengach na hwy i ganu a chyfansoddi salmau newydd eto". Byddwn deyrngar i'n gilydd a phrynwn y llyfr hwn fel anrheg Nadolig a gwobrau ysgol Sul eleni. Cofier fod traul fawr i gyhoeddi heddiw a rhaid clirio'r gost.

Enwaf ddau lyfr arall y dylai pawb ei darllen, *Bwlch yn y Llen Haearn*, gan Kate Bosse-Griffiths, Almaenes a ddysgodd Gymraeg yw hi a dyry gipolwg ddiddorol ar fywyd o'r tu ôl i'r Llen Haearn. Gellir ei gael am 2/6 o 1, Eaton Crescent, Abertawe. Llyfr mwy ei faint yw *Sylwadau*, gan Aneirin Talfan Davies, 103 tud., pris 7/6 o Wasg Aberystwyth. Y mae yn hwn gasgliad o ysgrifau beirniadol gwerth eu darllen.

Y mae'r cyfnodolion Cymraeg yn hynod o dda'r misoedd yma, yn enwedig *Seren Gomer* (wedi dechrau o'r newydd dan olygiaeth Lewis Valentine), *Y Dysgedydd*—y gorau o bob misolyn crefyddol 'rwy'n sicr, a rhwydd hynt i'r Golygydd newydd yn ei waith da. Fel y mae'r YMOFYNNYDD yn mynd i ddwylo llawer o Annibynwyr felly hefyd aed y *Dysgedydd* i ddwylo'r Undod-iaid hwythau yn eu tro. Yr un gŵr, y Parch. Iorwerth Jones, sy'n golygu'r *Crynhoad*, y cylchgrawn chwarterol ar ffurf y *Reader's Digest*. Y mae'r unfed rhifyn ar ddeg yn fy llaw ac ni fu un sâl yn eu plith.

Daeth nifer o lyfrynnau'r enwad i'm llaw yn ddiweddar hefyd a gellir eu cael o'r Lindsey Press, London W.C.1. Y gorau o bob un yw eiddo G. Randal Jones, Llywydd y llynedd, a'i deitl yw *The Religion behind religious*, pris 1/6 Y mae un capel yn mynd drwyddo o wythnos i wythnos gan drin a dadlau'r pynciau diddorol a geir ynddo. Gobeithio fod rhywun wedi rhoi *book token* i chwi—ewch ag ef i'r siop ar unwaith a mynnwch y rhain i gyd !

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.